



# HAY FESTIVAL

*imagine the world*

# SCHOOLS PROGRAMME
# RHAGLEN YSGOLION

KEY STAGE 2 / CYFNOD ALLWEDDOL 2
**THURSDAY 24 MAY 2018 / IAU 24 MAI 2018**

KEY STAGES 3 & 4 / CYFNODAU ALLWEDDOL 3 & 4
**FRIDAY 25 MAY 2018 / GWENER 25 MAI 2018**

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government










## CONTENTS / CYNNWYS


Welcome 3

Croeso 4

Programme at a glance / Y Rhaglen yn fras 5

Your questions answered 7

Atebion i'ch cwestiynau 9

THURSDAY 24 MAY – Key Stage 2
IAU 24 MAI - Cyfnod Allweddol 2

- Events / Digwyddiadau: 10am & 2.15pm 11
- Events / Digwyddiadau: 11.15am 15
- Events / Digwyddiadau: 1pm 19

FRIDAY 25 MAY – Key Stages 3 & 4
GWENER 25 MAI - Cyfnodau Allweddol 3 & 4

- Events / Digwyddiadau: 10am & 2.15pm 23
- Events / Digwyddiadau: 11.15am 27
- Events / Digwyddiadau: 1pm 31

# WELCOME

We are delighted to announce the 2018 line-up of writers and performers taking part in our Schools Programme at Hay Festival.

The Schools Programme is designed to inspire pupils in Key Stages 2, 3 and 4 with a range of events, free for all state schools, as part of our commitment to young people. It is funded for this purpose by the Welsh Government and Hay Festival Foundation.

On Thursday 24 May (KS 2) and Friday 25 May (KS 3 and 4), we will welcome thousands of children to our site. Pupils and teachers will have the chance to meet and engage with writers, performers and scientists. They will also have the opportunity to explore topics from equality, positive self-esteem, empathy and the importance of campaigning, to space, discovery and STEM (Science, Technology, Engineering and Mathematics).

The Festival has a fabulous bookshop, where you can browse to your heart's content. The books of all of the writers and performers taking part will be on sale, along with hundreds of other titles. The writers will be on hand after their events giving everyone in the audience a wonderful opportunity to get a book signed, to get a selfie and to ask further questions.

This year, we have programmed two start times each day to ease traffic so that all schools can get to the site more easily. When you book your tickets online please select EITHER a 10am start (finish time 1.45pm ) OR an 11.15 start (finish time 3pm). Both schedules offer the chance to see exactly the same events, and enjoy the same book-signing opportunities.

We look forward to welcoming you to these hugely enjoyable and inspiring days in which writers and readers are connected at entertaining and informative events designed especially for schools.

**Hay Festival's Schools Programme is curated by Children's Director Julia Eccleshare and Education Manager Aine Venables.**



*Children's Director at Hay Festival Wales*



*Education Manager at Hay Festival Wales*

# CROESO

Rydym yn falch iawn o gyhoeddi enwau'r awduron a'r perfformwyr ardderchog a fydd yn cymryd rhan yn ein Rhaglen i Ysgolion yng Ngŵyl y Gelli.

Mae'r Rhaglen i Ysgolion wedi'i chynllunio i ysbrydoli disgyblion Cyfnodau Allweddol 2, 3 a 4. Mae'r digwyddiadau amrywiol yn rhad ac am ddim i bob un o ysgolion y wladwriaeth, yn rhan o'n hymrwymiad i bobl ifainc. Ariennir y rhaglen gan Lywodraeth Cymru ac Ymddiriedolaeth Gŵyl y Gelli.


Ar ddydd Iau 24 Mai (CA 2) a dydd Gwener 25 Mai (CA 3 a 4), byddwn yn croesawu miloedd o blant i'n canolfan. Bydd hwn yn gyfle i ddisgyblion ac athrawon gwrdd ag awduron, perfformwyr a gwyddonwyr. Bydd cyfranogwyr yn cael cyfle i archwilio pynciau tra amrywiol: cydraddoldeb, hunan-barch, empathi a phwysigrwydd ymgyrchu; darganfyddiadau a STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg a Mathemateg) a gwyddoniaeth rocedi.

Bydd yn ddiwrnod ysbrydoledig a difyr i bob un.

Mae gan yr Ŵyl siop lyfrau ardderchog, lle gallwch chi bori yng nghanol eich hoff lyfrau. Bydd llyfrau'r holl awduron a'r perfformwyr sy'n cymryd rhan ar gael, ynghyd â miloedd o deitlau eraill. Bydd yr awduron yn y siop ar ôl eu digwyddiadau - cyfle gwych i gael llofnod ar eich copi personol chi, i dynnu hunlun neu i ofyn cwestiynau pellach.

Eleni, rydym wedi trefnu bod gan bob diwrnod ddau amser dechrau gwahanol, er mwyn hwyluso traffig a sicrhau bod modd i bob ysgol gyrraedd y safle'n haws. Pan fyddwch yn archebu eich tocynnau ar-lein, dewiswch ddechrau naill ai am 10am (i orffen am 1.45pm) neu am 11.15am (i orffen am 3pm). Bydd y ddwy amserlen yn cynnig yr un digwyddiadau yn union, a'r un cyfleoedd i gael arwyddo eich llyfrau.

**Cafodd Rhaglen Ysgolion Gŵyl y Gelli ei churadu gan y Cyfarwyddwr Plant, Julia Eccleshare, a Rheolwr Addysg Gŵyl y Gelli yng Nghymru, Aine Venables.**



*Cyfarwyddwr Rhaglen Blant Gŵyl y Gelli yng Nghymru*



*Rheolwr Addysg Gŵyl y Gelli yng Nghymru*

# PROGRAMME AT A GLANCE
# Y RHAGLEN YN FRAS

## KEY STAGE 2/CYFNOD ALLWEDDOL 2
## THURSDAY 24 MAY 2018/IAU 24 MAI 2018

**Please select a 10AM or 11. 15AM start / Dewiswch ddechrau am 10AM neu am 11.15AM os gwelwch yn dda**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *10am* | *Andy Stanton* | *Joe Coelho* | *100 Things to Know About Space* | *Kate Pankhurst* |
| 10.45 Break / Egwyl | | | | |
| *11.15am* | *Julian Clary* | *Daniel Morden* | *Katie Thistleton* | *Tony De Saulles* |
| 12.00 Lunch / Cinio | | | | |
| *1pm* | *Cressida Cowell* | *Stemettes* | *David Solomons* | *Richard R. O'Neill* |

---

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *11.15am* | *Julian Clary* | *Daniel Morden* | *Katie Thistleton* | *Tony De Saulles* |
| 12.00 Lunch / Cinio | | | | |
| *1pm* | *Cressida Cowell* | *Stemettes* | *David Solomons* | *Richard R. O'Neill* |
| 1.45 Break / Egwyl | | | | |
| *2.15pm* | *Andy Stanton* | *Joe Coelho* | *100 Things to Know About Space* | *Kate Pankhurst* |

# PROGRAMME AT A GLANCE
# Y RHAGLEN YN FRAS

## KEY STAGE 3 & 4/CYFNODAU ALLWEDDOL 3 & 4
## FRIDAY 25 MAY 2018/GWENER 25 MAI 2018

**Please select a 10AM or 11. 15AM start / Dewiswch ddechrau am 10AM neu 11.15AM os gwelwch yn dda**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *10am* | *Laura Dockrill* | *Sally Nicholls* | *Bali Rai* | *Lucy Adlington* |

10.45 Break / Egwyl

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *11.15am* | *Gemma Cairney* | *David Almond* | *Eric Ngalle Charles and Jenny Valentine* | *Sue Turton* |

12.00 Lunch / Cinio

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *1pm* | *Eoin Colfer, Andrew Donkin, Giovanni Rigano* | *Patrice Lawrence* | *Stemettes* | *Aneirin Karadog* |

---

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *11.15am* | *Gemma Cairney* | *David Almond* | *Eric Ngalle Charles and Jenny Valentine* | *Sue Turton* |

12.00 Lunch / Cinio

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *1pm* | *Eoin Colfer, Andrew Donkin, Giovanni Rigano* | *Patrice Lawrence* | *Stemettes* | *Aneirin Karadog* |

1.45 Break / Egwyl

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *2.15pm* | *Laura Dockrill* | *Sally Nicholls* | *Bali Rai* | *Lucy Adlington* |

# YOUR QUESTIONS ANSWERED

*"We had a brilliant day - all of the authors we saw were great and our students had a memorable experience, taking lots of ideas and advice away with them. The weather was a bonus too!" Alison Evans, Swansea school*

### Is there a travel bursary?

Schools in Wales can apply for the **Arts Council Wales 'Go and See' fund** to cover travel costs - you must apply before your visit. It is a good idea to apply as soon as you send in your booking form. You can also use the **Pupil Deprivation Grant** to cover travel costs.

### How do I book tickets?

All bookings are done digitally. You can request tickets by submitting the booking form online. The closing date for applications is 30 April 2018. If you have any queries email schools@hayfestival.com.

### Can pupils buy books at the Festival?

Yes, the Festival bookshop will have books by all the authors on sale at a discounted price. Pupils can have their books signed on the day and are also welcome to bring their own books to be signed.

### Can we go to more than one event?

You can attend as many events as you wish, as long as there is space available, but you can only select events from your chosen arrival time, either 10am start (for any events at 10am, 11.15am and 1pm – finish time 1.45pm) or 11.15am start (for any events at 11.15am, 1.pm and 2.15pm – finish time 3pm).

### Can we bring a large group of children to the Festival site?

The site is designed for safety and comfort. Each school will be greeted on arrival and guided to their first venue. Festival staff will be on hand throughout the day to answer queries. The site has full security, with a comprehensive lost child procedure.

### Are the events accessible?

Yes, our venues are wheelchair-accessible and have infra-red audio loops for students with hearing difficulties.



### Can we bring packed lunches?

Yes, there is plenty of space on site for pupils to relax and enjoy themselves during the lunch break. In the event of rain, everyone will stay dry inside the tents.

### Is there anywhere we can buy tea and coffee on site?

The Friends Café will be open throughout the two Schools Programme days, serving tea, coffee, drinks and snacks.

### Where should we park?

The Festival has parking on site for minibuses. Coaches may pull into the lay-by outside the site on Brecon Road for drop-offs but must leave the site via Glasbury. Drivers may then park free of charge in the designated coach area at Baskerville Hall Hotel. At the end of the day, coaches will be called and directed when their pupils are ready to depart. There is a compulsory one-way system in operation travelling from Baskerville Hall Hotel car park through Hay town to the site. Coaches must depart via Glasbury. A letter with further information will follow.

### Who funds the events?

Our Schools Programme is funded by the Welsh Government and Hay Festival Foundation, as part of our commitment to education and the community.

# ATEBION I'CH CWESTIYNAU

*"Fe gawsom ni ddiwrnod gwych. Roedd yr holl awduron a welsom yn ardderchog ac roedd yn brofiad cofiadwy i'n holl fyfyrwyr - fe gawson nhw lawer o syniadau a chyngor gwerthfawr. Ac roedd y tywydd yn odidog hefyd!"*
*Alison Evans, Abertawe*

**A oes nawdd ar gael i'n helpu ni i dalu costau teithio?**
Gallwch wneud cais am nawdd i dalu costau teithio gan gronfa **Ewch i Weld Cyngor Celfyddydau Cymru** - rhaid i chi wneud cais cyn eich ymweliad ac mae hi'n syniad da gwneud y cais hwnnw cyn gynted ag yr anfonwch eich ffurflen archebu atom. Gallwch ddefnyddio **Grant Amddifadedd Disgyblion** hefyd er mwyn mynychu Taith y Sgriblwyr.

**Sut mae archebu tocynnau?**
Gallwch wneud cais am docynnau trwy lenwi'r ffurflen archebu ar-lein. Y dyddiad cau yw 30 Ebrill 2018. Os bydd cwestiynau neu ymholiadau gennych, anfonwch e-bost at schools@hayfestival.com.

**A oes angen i ni baratoi ymlaen llaw gyda'r disgyblion?**
Bydd eich disgyblion yn cael mwy o fudd o'r rhaglen os byddan nhw wedi darllen ambell un o'r llyfrau y bydd ein hawduron yn eu trafod. Byddan nhw'n gwybod pa gwestiynau i'w gofyn ac fe fyddant yn gallu ymwneud â'r digwyddiad mewn mwy o ddyfnder. Mae croeso i ddisgyblion ddod â'u llyfrau eu hunain o adre' i gael eu llofnodi gan yr awduron. Bydd Siop Lyfrau'r Ŵyl hefyd yn gwerthu llyfrau gan yr holl awduron sy'n ymddangos. Gall ysgolion drefnu i brynu llyfrau o flaen llaw, am bris gostyngol. Byddwn yn anfon ffurflen archebu atoch, i'w dychwelyd erbyn 2 Mai.

**Allwn ni fynd i fwy nag un digwyddiad?**
Gallwch fynychu cynifer o ddigwyddiadau ag y dymunwch, cyn belled â bod lle ar gael, ond dim ond digwyddiadau ar yr amserlen sy'n cyfateb i'ch amser dechrau chi y gallwch eu dewis.

Hynny yw, os yw eich diwrnod yn dechrau am 10am gallwch ddewis mynychu'r digwyddiadau am 10am, 11.15am a 1pm (rhaglen yn gorffen am 2pm). Os yw eich diwrnod yn dechrau am 11.15am, gallwch ddewis mynychu'r digwyddiadau am 11.15am, 1pm a 2.15pm (rhaglen yn gorffen am 3pm)

### A fydd disgyblion yn gallu prynu llyfrau yn yr Ŵyl?

Byddan, bydd ein siop lyfrau yn gwerthu llyfrau gan yr holl awduron am bris gostyngol. Bydd disgyblion yn gallu prynu llyfrau i gael eu llofnodi ar y diwrnod – ond mae croeso mawr iddynt ddod â'u llyfrau eu hunain hefyd.

### A yw'r digwyddiadau yn hygyrch?

Ydyn, mae ein lleoliadau yn hygyrch i gadeiriau olwyn ac mae ganddynt ddolenni sain is-goch ar gyfer myfyrwyr ag anawsterau clywed.

### Allwn ni ddod â phecynnau cinio gyda ni?

Cewch. Mae digon o le ar y safle i ddisgyblion ymlacio a mwynhau yn ystod yr awr ginio. Os bydd hi'n bwrw glaw, gallant aros dan do yn ein pebyll.

### Oes yna le i brynu te a choffi ar y safle?

Bydd Caffi'r Cyfeillion ar agor trwy gydol dau ddiwrnod y Rhaglen i Ysgolion a bydd yn cynnig te, coffi, diodydd a byrbrydau.

### Ble ddylem ni barcio?

Mae gan yr Ŵyl faes parcio penodol i fysiau mini. Gall bysus dynnu i mewn i'r gilfan y tu allan i'r safle ar Heol Aberhonddu er mwyn gadael plant oddi ar y bws ond rhaid iddynt adael y safle drwy Clas ar Wy / Glasbury. Gall gyrwyr bysus barcio am ddim yn y maes parcio penodedig i fysus yng Ngwesty Baskerville Hall. Ar ddiwedd y dydd, caiff bysus eu galw pan fydd disgyblion yn barod i adael. Mae system unffordd orfodol yn weithredol o faes parcio Baskerville Hall, trwy dref Y Gelli ac ymlaen i safle'r ŵyl. Rhaid i fysus adael drwy Clas ar Wy / Glasbury. Byddwn yn anfon llythyr â gwybodaeth bellach atoch maes o law.

### Pwy sy'n ariannu'r digwyddiadau?

Caiff ein Rhaglen i Ysgolion ei hariannu gan Lywodraeth Cymru ac Ymddiriedolaeth Gŵyl y Gelli yn rhan o'n hymrwymiad i addysg a'r gymuned.

## THURSDAY 24 MAY - KEY STAGE 2
## IAU 24 MAI - CYFNOD ALLWEDDOL 2

### 10AM AND 2.15PM ANDY STANTON







### *Mr Gum* and *Natboff!*


Join the ridiculously funny Andy Stanton for an hour of joyous nonsense as he talks about the best-selling, multi award-winning 'Mr Gum' series, as well as his new book, *Natboff! One Million Years of Stupidity*, which is just as epically surreal as it sounds. There'll be plenty of laughter, silly voices and horrible, horrible singing – in short, business as usual. Guaranteed to put a smile on your face (or add an extra one if you were already smiling to begin with).

Ymunwch ag Andy Stanton am awr o nonsens pur a chwerthin wrth iddo sôn am gyfres 'Mr Gum', a enillodd wobrau niferus, a'i lyfr newydd, *Natboff! One Million Years of Stupidity*, sydd mor syfrdanol a swrrealaidd ag y mae'n swnio! Bydd yna lond lle o chwerthin, lleisiau gwirion a chanu ofnadwy mewn sesiwn sydd yn siŵr o roi gwên ar eich wyneb (neu o roi gwên ychwanegol ar eich wyneb os oeddech chi eisoes yn gwenu).

## 10AM AND 2.15PM JOE COELHO






### *The Sad Tale of the Fly…Splatt!*

In this interactive and fun session the audience will join in to create a range of different poems from silly similes to super sonnets and even delve into personification using the "Make It Human Personification Machine" that has been known to make boots sneeze and tomatoes blush. Joseph's inventive event mixes poems from his Carnegie Prize-nominated poetry anthology *Overheard in a Tower Block* with activities from his debut non-fiction book *How to Write Poems*.

Yn y sesiwn ryngweithiol a hwyliog hon, bydd y gynulleidfa'n helpu i greu amrywiaeth o gerddi gwahanol - o gymariaethau gwirion i sonedau swynol. Bydd cyfle hefyd i chi ddefnyddio'r "Make It Human Personification Machine" - mae hwnnw wedi llwyddo i wneud i domatos wrido hyd yn oed! Bydd digwyddiad dyfeisgar Joseff yn cyfuno cerddi o'r casgliad a enwebwyd am Wobr Carnegie, Overheard in a *Tower Block*, a gweithgareddau o'i lyfr ffeithiol cyntaf, *How to Write Poems*.

## 10AM AND 2.15PM ALEX FRITH, ALICE JAMES, JEROME MARTIN






### *100 Things to Know About Space*

Did you know that snow on Mars is square? Or that there's a cloud in outer space that tastes like raspberries? Join authors Alex Frith, Alice James and Jerome Martin as they take you on a fascinating journey to outer space, followed by a big space quiz at the end.

Oeddech chi'n gwybod bod eira ar y blaned Mawrth yn sgwâr? Neu fod yna gwmwl yn y gofod pell sy'n blasu fel mafon? Ymunwch â'r awduron Alex Frith, Alice James a Jerome Martin wrth iddyn nhw eich arwain chi ar daith i bellteroedd y bydysawd - cyn Cwis Mawr y Gofod ar y diwedd!

## 10AM AND 2.15PM KATE PANKHURST







### *Fantastically Great Women Who Made History*

Stand tall with daring Suffragette leader Flora Drummond (aka the General) to get VOTES FOR WOMEN! Send secret messages with the astoundingly brave WWII undercover wireless radio operator, Noor Khan. Search for treasure with pirate queen, Sayidda Al-Hurra and meet a whole host of women who made history.

Sefwch yn hy gydag arweinydd dewr y swffragetiaid, Flora Drummond ('The General') i sicrhau'r BLEIDLAIS I FENYWOD! Anfonwch negeseuon cyfrinachol gyda Noor Khan, a oedd yn gweithredu'r gwasanaeth radio di-wifr yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Chwiliwch am drysor gyda brenhines y môr-ladron, Sayidda Al-Hurra, a dewch i gwrdd â llu o ferched rhyfeddol a newidiodd gwrs hanes.

## 11.15AM JULIAN CLARY AND DAVID ROBERTS







### *The Bolds*

Comedian, entertainer and writer Julian Clary and award-winning illustrator David Roberts (above, left) introduce you to *The Bolds*, their best-selling series of adventures about a family of hyenas living in an ordinary suburban street. An unmissable event packed with wildly hilarious readings in Julian's unique style, live-drawing from David Roberts and lots of laughter.

Mae'r digrifwr a'r awdur Julian Clary a'r darlunydd gwobrwyol David Roberts yn cyflwyno *The Bolds*, eu cyfres o anturiaethau poblogaidd am deulu o hienas sy'n byw mewn stryd faestrefol gyffredin. Bydd hwn yn ddigwyddiad gwych, yn llawn o ddarlleniadau afreolus yn arddull unigryw Julian, darlunio byw gan David Roberts, a llawer iawn o chwerthin.

## 11.15AM DANIEL MORDEN






### *Secret Tales from Wales*

Daniel Morden has travelled the world performing Welsh folktales, from Hawaii to Sydney and from Haiti to Swansea. His passionate tellings of ancient stories are bristling with energy and wit. Born in Cwmbran and now living in Abergavenny, he has written seven collections of long-forgotten Welsh stories, including the award-winning *Dark Tales from the Woods*. His most recent book is *Secret Tales from Wales*. Last year he was awarded the Hay Festival Medal for Drama.

Mae Daniel Morden wedi teithio'r byd, o Hawaii i Sydney ac o Haiti i Abertawe, i berfformio'i straeon gwerin o Gymru. Mae ei fersiynau angerddol o storïau hynafol yn llawn egni miniog a hiwmor. Ganwyd Daniel yng Nghwmbrân ac mae e bellach yn byw yn y Fenni. Ysgrifennodd saith casgliad, yn seiliedig ar straeon Cymreig a aeth yn angof, gan gynnwys y gyfrol wobrwyol *Dark Tales from the Woods*. Ei lyfr diweddaraf yw *Secret Tales from Wales*. Enillodd Daniel Fedal Ddrama Gŵyl y Gelli yn 2017.

## 11.15AM KATIE THISTLETON







### *Dear Katie*

Join the BBC TV and radio presenter as she talks about mental health and growing up. With insight and anecdotes from her own life, Katie will use examples from her book, *Dear Katie: Real Problems, Real Advice* and will encourage everyone to think about the advice they could offer to others. Plus, there will be top tips to survive the minefield of growing up.

Ymunwch â chyflwynydd teledu a radio y BBC wrth iddi sôn am iechyd meddwl a thyfu i fyny. Gyda chymorth hanesion o'i bywyd ei hun ac enghreifftiau o'i llyfr, *Dear Katie: Real Problems, Real Advice*, bydd Katie'n annog pawb i feddwl am y cynghorion y gallen nhw eu rhoi i eraill. Bydd hi hefyd yn cynnig atebion posib er mwyn goroesi'r broses anodd o dyfu i fyny.

## 11.15AM TONY DE SAULLES






### *Bee Boy*

Tony De Saulles, illustrator of the best-selling 'Horrible Science' series, presents his brand new series *Bee Boy*, the story of unlikely superhero Melvin Meadly who is half-bee and half-boy. Will Melvin be able to defend his hive against killer wasps, terrifying hawkmoths, and battling queen bees? And what about the greatest menace of all… Nasty Norman Crudwell? Join Tony to discover his top-secret illustration tips in a bee drawing workshop, uncover fascinating bee facts, put your knowledge to the test with a quiz, and be immersed in an action-packed story that will leave you buzzing.

Mae Tony De Saulles, darlunydd y gyfres boblogaidd 'Horrible Science', yn cyflwyno ei gyfres newydd *Bee Boy*, am yr uwcharwr annhebygol Melvin Meadly, sydd yn hanner bachgen a hanner gwenynen. A fydd Melvin yn gallu amddiffyn ei gwch gwenyn yn erbyn cacwn cas, gwyfynod ofnadwy, a breninesau brwydrol? Heb sôn am y bygythiad mwyaf un ... y Norman Crudwell creulon? Ymunwch â Tony i glywed ei gynghorion arlunio cyfrinachol mewn gweithdy darlunio gwenyn, i glywed ffeithiau diddorol am wenyn, i brofi eich gwybodaeth yn y cwis, ac i fwynhau stori ryfeddol a chyffrous.

## 1PM CRESSIDA COWELL






### *The Wizards of Once* and *How to Train Your Dragon*

Cressida Cowell returns to Hay to launch the paperback of her brand new, number one best-selling book, *The Wizards of Once*. Best known for her *How to Train Your Dragon* series, she will talk about her inspiration, give tips on becoming an author or illustrator, as well as sharing behind-the-scenes details about how the 'Dragon' books became films. Cressida has been an Ambassador for the National Literacy Trust for a decade and is the winner of the 2017 Hay Festival Medal for Fiction.

Mae Cressida Cowell yn dychwelyd i'r Gelli i lansio fersiwn clawr papur ei llyfr newydd hynod boblogaidd, *The Wizards of Once*. Yn adnabyddus am ei chyfres *How to Train Your Dragon*, bydd Cressida'n siarad am ei hysbrydoliaeth, yn rhoi cyngor i chi os ydych chi am fod yn awdur neu'n ddarlunydd, ac yn rhannu ambell fanylyn cyfrinachol am y broses o drosi ei llyfrau ar gyfer y sgrin. Bu Cressida yn Llysgennad dros Ymddiriedolaeth Genedlaethol Llythrennedd ers degawd ac enillodd Fedal Ffuglen Gŵyl y Gelli yn 2017.

## 1PM STEMETTES




Ever thought of challenging yourself in some of the most important scientific concepts? Ever wondered what it's like to be in a STEM role? Come and hear from Stemettes, an award-winning social enterprise working across the UK and Ireland to inspire young women into STEM (Science, Technology, Engineering and Maths).

Ydych chi wedi ystyried herio'ch hun gyda rhai o'r cysyniadau gwyddonol pwysicaf? Ydych chi erioed wedi dychmygu sut beth fyddai gweithio mewn rôl STEM? Dewch i glywed gan y Stemettes ac am fenter gymdeithasol wobrwyol sy'n gweithio ledled y DG ac Iwerddon i ysbrydoli menywod ifanc i weithio ym myd STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg).

## 1PM DAVID SOLOMONS






### *My Brother is a Superhero* and *My Evil Twin is a Supervillain*

Polish up your knowledge of superheroes and supervillains at this brilliant event with David Solomons. Know what Superman's weakness is? Find out all the answers and more as David shares stories from some of his side-splittingly funny books. Do you like saving the world? Dramatic alien visits? Cases of mistaken identity? Then you'll like THIS!

Dewch i wella'ch gwybodaeth am uwcharwyr a dihirod yn y digwyddiad ardderchog hwn gyda David Solomons. Ydych chi'n gwybod beth yw gwendid Superman? Ydych chi wedi clywed am Arm Fall Off Boy? Fe gewch chi'r holl atebion a mwy wrth i David rannu straeon o rai o'i lyfrau anhygoel o ddoniol. Ydych chi'n hoffi achub y byd? Ymweliadau dramatig gan aliens? Achosion o gamadnabod? Os felly, byddwch chi wrth eich bodd yn y sesiwn hon.

## 1PM RICHARD R. O'NEILL






### *How to Make Amazing Stories from Ordinary Things*

The storyteller and author brought up in the nomadic storytelling tradition has blended the old with the new, turning his stories into award-winning plays for radio and theatre and, best of all, into books for children and young adults. He loves words and how they have the power to show the diversity of all of our lives and how we can have fun creating stories from them. Richard likes to show how we can use stories to turn the ordinary into the extraordinary, to educate, inspire and empower ourselves and others. During the session there will be reading from *Ossiri and the Balamengro*, a story about a girl who refuses to give up on her dream.

*In association with Bradford Literary Festival*

Mae'r storïwr a'r awdur a gafodd ei fagu yn y traddodiad chwedleua crwydrol yn cyfuno'r hen a'r newydd. Mae e'n troi ei straeon yn ddramâu gwobrwyol i'r radio a'r theatr ac, yn well na dim, yn creu llyfrau gwych i blant ac oedolion ifanc. Mae e'n caru geiriau a'r pŵer sydd ganddynt i ddatgelu amrywiaeth ein bywydau. Mae e wrth ei fodd â'r amrywiol ffyrdd y gallwn ni gael hwyl gyda geiriau, a'u defnyddio i greu storïau ardderchog. Mae Richard yn hoffi dangos sut y gallwn ni ddefnyddio straeon i wneud y cyffredin yn anghyffredin, i addysgu, i ysbrydoli ac i'n grymuso ni ein hunain ac eraill. Yn ystod y sesiwn hon bydd yn darllen o *Ossiri and the Balamengro*, stori am ferch sy'n gwrthod rhoi'r gorau i'w breuddwyd.

*Ar y cyd â Gŵyl Lenyddol Bradford*

## 10AM AND 2.15PM LAURA DOCKRILL







### *Big Bones*

Join the performance poet, author, artist and all-round girl boss for an in-your-face event championing freedom of self-expression, empowering a positive body image and a love of food, with an unapologetic look at how we look after ourselves and others. Laura's wonderfully inventive and vibrant approach to life is reflected in the rich and vividly imagined worlds she creates.

Ymunwch â'r bardd, y perfformiwr, yr awdur, yr artist a'r hogan anhygoel hon wrth iddi hyrwyddo hunan-fynegiant, delwedd gorfforol gadarnhaol a chariad at fwyd. Bydd Laura'n bwrw golwg ar y ffyrdd sydd gennym o ofalu amdanom ni ein hunain ac eraill. Caiff ei hagwedd ddyfeisgar a bywiog at fywyd ei hadlewyrchu yn y bydoedd cyfoethog a dychmygol y mae hi'n eu creu.

## 10AM AND 2.15PM SALLY NICHOLLS






### *Things a Bright Girl Can Do*

As we mark 100 years since the battle for women's suffrage was won, hear from author Sally Nicholls who will be discussing her book documenting the suffrage movement from the point of view of three young women of the time. It is a great story and one that shows how far there is to go in the battle for equality. Through rallies and marches, in polite drawing-rooms, freezing prison cells and the slums of London's East End, it tells how three courageous young women join the fight for the vote. Brave and determined, all three are challenged and changed more than they would ever have believed by the fight for freedom. As war looms, just how much are they willing to sacrifice?

Wrth i ni nodi 100 mlynedd ers i fenywod ennill yr hawl i bleidleisio, cawn glywed gan yr awdur Sally Nicholls, a fydd yn trafod ei llyfr am y swffragetiaid o safbwynt tair menyw ifanc o'r cyfnod hwnnw. Mae hi'n stori wych ac yn dangos cymaint sydd i'w wneud o hyd yn y frwydr dros gydraddoldeb. Trwy gyfrwng ralïau a gorymdeithiau, mewn ystafelloedd moethus, mewn celloedd carchar rhewllyd ac yn slymiau'r 'East End' yn Llundain, mae'r llyfr yn adrodd hanes tair menyw ifanc eofn sy'n brwydro dros eu hawl i bleidleisio. Mae'r tair yn wynebu heriau a newidiadau syfrdanol wrth geisio sicrhau eu rhyddid, ond wrth i ryfel daflu cysgod drostynt, beth fydd y gost?

## 10AM AND 2.15PM BALI RAI







### *The Harder They Fall*

Bali Rai, author of *Tales From India* and *Web of Darkness*, asks whether empathy in modern Britain is on the wane. Are we too quick to judge and too slow to understand? Can we encourage greater empathy skills in our youngsters? And does reading really make a difference? A challenging and thought-provoking session for teenagers.

Mae Bali Rai, awdur *Tales From India a Web of Darkness*, yn gofyn a yw empathi'n pylu yn y Brydain gyfoes. Ydyn ni'n rhy barod i farnu ac yn rhy araf i ddeall? A allwn ni annog ein pobl ifanc i deimlo mwy o empathi? Ac a yw darllen yn gwneud gwahaniaeth go iawn? Sesiwn heriol ac ysgogol i bobl ifanc yn eu harddegau.

## 10AM AND 2.15PM LUCY ADLINGTON






### *The Red Ribbon*

Ella is a prisoner at the Birkenau-Auschwitz concentration camp a place that is all about survival. She seeks refuge from this reality, and from haunting memories, in her work and in the world of fashion and fabrics. She is faced with painful decisions about how far she is prepared to go to survive. One item weaves through the colours of couture gowns and camp mud – a red ribbon – given to Ella as a symbol of hope.


When she begins her first day working at Birchwood (Birkenau), she steps into a world of silks, seams, scissors, pins, hems and trimmings. She is a dressmaker, but this is no ordinary sewing workshop. Every dress she makes could mean the difference between life and death . . .

Mae Ella yn garcharor yng ngwersyll crynhoi Birkenau-Auschwitz. Goroesi yw'r unig nod. Mae Ella'n ceisio ffoi rhag y realiti hwn, a rhag ei hatgofion poenus, trwy ei gwaith ac ym myd ffasiwn a ffabrigau. Mae hi'n gorfod wynebu penderfyniadau anodd - beth wnaiff hi er mwyn goroesi? Daw un eitem arbennig i gynrychioli gobaith i Ella – rhuban coch, a roddir iddi fel symbol o obaith, i ddisgleirio yng nghanol mwd y gwersyll.

Ar ôl i Ella ddechrau gweithio yn Birchwood (Birkenau), mae hi'n troi mewn byd o sidanau, pinnau, hems a deunydd cain. Mae hi'n gwneud ffrogiau, ond nid gweithdy gwnïo cyffredin yw hwn. Gallai pob ffrog y mae hi'n ei gwneud nodi'r ffin rhwng bywyd a marwolaeth ...

## 11.15AM GEMMA CAIRNEY






### *Open Your Heart*

### (for pupils in years 9 and 10)

Open your heart with the broadcaster and teen ambassador. Find out how she was inspired to write a book for young people to help with all the big, bad and beautiful things that growing up is all about: from heartbreak and heartache to body image and confidence. Gemma will help you learn to love your body, your friends and your family, and tell you what to do if things go wrong.

### (i ddisgyblion ym mlynyddoedd 9&10)

'Agorwch eich calon, dysgwch garu eich bywyd a charu chi'ch hun' gyda'r darlledwr a'r 'teen ambassador', Gemma Cairney. Dewch i glywed sut y cafodd Gemma ei hysbrydoli i ysgrifennu llyfr i bobl ifainc a fydd yn eu helpu i ddelio â'r holl bynciau mawr, y pethau anodd a'r pethau hardd sy'n rhan o dyfu i fyny: torri calon a loes, hunan-ddelwedd a llu o bethau eraill. Bydd Gemma Cairney yn eich helpu chi i ddysgu caru eich corff, eich ffrindiau a'ch teulu, ac yn dweud wrthych chi sut i ymdopi os eith pethau o chwith.

## 11.15AM DAVID ALMOND






### *The Colour of the Sun*

Join the multi-award-winning author of *Skellig* as he introduces his moving, funny, inspirational and magical new novel. "The day is long, the world is wide, you're young and free." One hot summer morning, Davie steps boldly out of his front door. The world he enters is very familiar – the little Tyneside town that has always been his home – but as the day passes, it becomes ever more dramatic and strange. A boy has been killed, and Davie thinks he might know who is responsible. He turns away from the gossip and excitement and sets off roaming towards the sunlit summit at the top of the town, where the real and imaginary worlds begin to blur... Davie sees things on the hillside that show him that alongside immorality there can be kindness, and in darkness there is a chance for hope.

Ymunwch ag awdur aml-wobrwyol *Skellig* wrth iddo gyflwyno ei nofel newydd ddoniol, ingol, ysbrydoledig a hudolus. "The day is long, the world is wide, you're young and free". Un bore poeth o haf, mae Davie yn camu allan trwy ddrws ei gartref. Mae'r byd yn un cyfarwydd – y dref fach yn Tyneside a fu'n gartref iddo erioed – ond wrth i'r diwrnod fynd yn ei flaen, mae pethau'n mynd yn fwy dramatig a rhyfedd. Mae bachgen wedi cael ei ladd, ac mae Davie'n meddwl ei fod yn gwybod pwy sy'n gyfrifol. Mae'n gadael y clecs ar ei ôl ac yn mynd i gerdded, i'r bryniau heulog ar dop y dref, lle mae'r byd go iawn a byd ei ddychymyg yn dechrau cydblethu ... Mae Davie'n gweld pethau ar y bryn sy'n dangos iddo y gall caredigrwydd fodoli ar y cyd ag anfoesoldeb, a bod yna olau a gobaith hyd yn oed yn y tywyllwch mwyaf dudew.

## 11.15AM ERIC NGALLE CHARLES and JENNY VALENTINE



### *I Feel At Home, Away From Home*

Eric Ngalle Charles is a poet, author and playwright who has claimed asylum in Wales. His uplifting story describes how literature and creative writing helped him to overcome his hasty departure from Cameroon when he was 17, how he survived being a victim of human trafficking and living on the streets in Russia before eventually coming to live in Wales.


Jenny Valentine, YA writer and 2017 Creative Wales Hay Festival International Fellow, interviews Eric to explore the power of empathy and creativity through writing.

Mae Eric Ngalle Charles yn fardd, awdur a dramodydd a hawliodd loches yng Nghymru. Mae stori ddyrchafol Eric yn disgrifio sut y bu i lenyddiaeth ac ysgrifennu creadigol ei helpu ef i ddod dros y profiad o orfod gadael ei gartref yn Camerŵn ar frys a hynny pan oedd yn 17 oed; wedi gwneud hynny, cafodd brofiad uniongyrchol o fasnachu pobl ac o fyw ar y stryd yn Rwsia cyn dod yn y pen draw i Gymru i fyw.

Bydd yr awdur Oedolion Ifanc a Chymrawd Rhyngwladol Cymru Greadigol a Gŵyl y Gelli 2017, Jenny Valentine, yn cyfweld ag Eric ac yn archwilio pŵer empathi a chreadigrwydd mewn gwaith ysgrifenedig.

## 11.15AM SUE TURTON






### *This Book Will (help you) Change the World*

The war correspondent Sue Turton has been breaking exclusives and dodging gunfire all over the world for 28 years. Join her as she teaches you how to disrupt the system, force change and devise your own world-changing campaigns with the help of her own political toolkit and powerhouse guide to activism.

Bu'r gohebydd rhyfel yn cyflwyno straeon ecsgliwsif ac yn ffoi rhag bwledi ledled y byd ers 28 mlynedd. Ymunwch â hi i glywed sut mae mynd ati i amharu ar y system, sut i orfodi newid a sut i ddyfeisio eich ymgyrchoedd eich hun i newid y byd – gyda chymorth pecyn ymgyrchu arbennig iawn.

## 1PM EOIN COLFER, ANDREW DONKIN, GIOVANNI RIGANO



### *Illegal*

Join the authors Eoin Colfer, Andrew Donkin and illustrator Giovanni Rigano, the team behind the best-selling 'Artemis Fowl' graphic novels, as they present their latest book and take you on an epic, heart-breaking journey across continents. Hear how they produced the book, discover the real stories behind the headlines and learn what it takes to make a graphic novel.

### *Anghyfreithlon*

Ymunwch â'r awduron Eoin Colfer ac Andrew Donkin a'r darlunydd Giovanni Rigano, a oedd yn gyfrifol am nofelau graffig poblogaidd 'Artemis Fowl'. Byddan nhw'n cyflwyno eu llyfr diweddaraf ac yn eich arwain chi ar daith ysgubol ar hyd y cyfandiroedd. Cewch glywed sut y cynhyrchon nhw'r llyfr ac am y straeon go iawn y tu ôl i'r penawdau. Byddwch hefyd yn cael clywed sut mae mynd ati i greu eich nofel graffig eich hun.

## 1PM PATRICE LAWRENCE






### *Indigo Donut*

Patrice grew up in different types of families – a foster family, a family with a stepdad, and a single parent family. Like her award-winning novel *Orangeboy*, her new book is about loyalty, friendship, resilience, music and belonging. For this event, she will talk about her unusual family (with pictures) and how feeling different made her bury her head in books, then write her own.

Cafodd Patrice ei magu mewn teuluoedd o wahanol fathau – teulu maeth, teulu gyda llystad, a theulu rhiant sengl. Fel ei nofel arobryn, *Orangeboy*, mae ei llyfr newydd yn ymwneud â theyrngarwch, cyfeillgarwch, gwytnwch, cerddoriaeth a pherthyn. Yn y digwyddiad hwn, bydd hi'n siarad am ei theulu anarferol (ac yn dangos lluniau) ac yn sôn am y profiad o deimlo'n wahanol – sut y cafodd gysur ym myd llyfrau a darllen, a dechrau ysgrifennu ei llyfrau ei hun yn y pen draw.

## 1PM STEMETTES



Ever thought of challenging yourself in some of the most important scientific concepts? Ever wondered what it's like to be in a STEM role? Come and hear from Stemettes, an award-winning social enterprise working across the UK and Ireland to inspire young women into STEM (Science, Technology, Engineering and Maths).

Ydych chi erioed wedi meddwl herio'ch hun gyda rhai o'r cysyniadau gwyddonol pwysicaf? Ydych chi wedi dychmygu sut beth fyddai gweithio mewn rôl STEM? Dewch i glywed gan y Stemettes, ac am fenter gymdeithasol wobrwyol sy'n gweithio ledled y DG ac Iwerddon i ysbrydoli merched i weithio ym myd STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg).

## 1PM ANEIRIN KARADOG



### *Time to Rhyme some Rhythms*

This is your chance to play your part in a multi-lingual, multi-form performance of rap and poetry. Aneirin will challenge and inspire you to try being a poet-rapper yourself. Bring your enthusiasm and imagination and leave your inhibitions at the door while we have fun with words.

### *Odli Rhythmau a Geiriau*

Dyma'ch cyfle chi i gymryd rhan mewn perfformiad rap/barddoniaeth amlieithog ac aml-ffurf. Bydd Aneirin yn eich herio chi ac yn eich ysbrydoli i geisio bod yn fardd-rapiwr! Dewch â'ch brwdfrydedd a'ch dychymyg gyda chi. Gadewch eich pryderon a'ch swildod wrth y drws, a dewch i gael hwyl gyda geiriau.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

HAY FESTIVAL
FOUNDATION